# Canllaw Adroddiadau Siarter Iaith ar gyfer ysgolion

**Dogfen ganllaw Fersiwn: 1.0**


**Diweddarwyd ddiwethaf: 19/09/2024**

O fis Medi 2024 ymlaen, bydd holiaduron y Siarter Iaith ar gael ar Hwb gan ddefnyddio'r rhaglen 'Evaluations'. Gall defnyddwyr gael mynediad at yr holiaduron drwy'r dudalen Siarter Iaith.


Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau i gydlynwyr ac ymarferwyr ar sut i gael mynediad at adroddiadau yr holiaduron.

## Mynediad at yr adroddiadau


Gall adroddwyr gael mynediad at yr adroddiadau drwy'r ap adroddiadau ar Hwb. Gellir cael mynediad at hwn o'r dudalen gartref neu'r ddewislen.





Yn yr ap Adroddiadau, dewiswch yr opsiwn ar gyfer ‘Adroddiadau (01/01/2023 - Presennol)’.




Yna, dewiswch y tab ar gyfer ‘Adroddiadau Eraill’.




Yma, fe welwch yr holl holiaduron Siarter Iaith sydd wedi’u rhannu gyda chi.




| Adroddiad | Disgrifiad |
|---|---|
| Holiadur Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Cymraeg Tymor yr Hydref 24 | Report on Holiadur Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Cymraeg Tymor yr Hydref 24 |
| Holiadur Siarter Iaith Ysgolion Uwchradd Cymraeg / Dwy ffrwd Tymor yr Hydref 2024 - Blwyddyn 9 | Report on Holiadur Siarter Iaith Ysgolion Uwchradd Cymraeg / Dwy ffrwd Tymor yr Hydref 2024 - Blwyddyn 9 |
| Holiadur Siarter Iaith Ysgolion Uwchradd Cymraeg / Dwy ffrwd Tymor yr Hydref 2024 - Blwyddyn 11 | Report on Holiadur Siarter Iaith Ysgolion Uwchradd Cymraeg / Dwy ffrwd Tymor yr Hydref 2024 - Blwyddyn 11 |
| Holiadur Siarter Iaith Ysgolion Uwchradd Cymraeg / Dwy ffrwd Tymor yr Hydref 2024 - Blwyddyn 8 | Report on Holiadur Siarter Iaith Ysgolion Uwchradd Cymraeg / Dwy ffrwd Tymor yr Hydref 2024 - Blwyddyn 8 |
| Holiadur Siarter Iaith Ysgolion Uwchradd Cymraeg / Dwy ffrwd Tymor yr Hydref 2024 - Blwyddyn 10 | Report on Holiadur Siarter Iaith Ysgolion Uwchradd Cymraeg / Dwy ffrwd Tymor yr Hydref 2024 - Blwyddyn 10 |
| Holiadur Cymraeg Campus Uwchradd / Secondary Schools Questionnaire Hydref / Autumn 2024 - Bl / Yr 10 | Report on Holiadur Cymraeg Campus Uwchradd / Secondary Schools Questionnaire Hydref / Autumn 2024 - Bl / Yr 10 |
| Cymraeg Campus Secondary Schools Questionnaire | Report on Cymraeg Campus Secondary Schools Questionnaire |
| Holiadur Cymraeg Campus Uwchradd / Secondary Schools Questionnaire Hydref / Autumn 2024 - Bl / Yr 11 | Report on Holiadur Cymraeg Campus Uwchradd / Secondary Schools Questionnaire Hydref / Autumn 2024 - Bl / Yr 11 |
| Holiadur Cymraeg Campus Uwchradd / Secondary Schools Questionnaire Hydref / Autumn 2024 - Bl / Yr 7 | Report on Holiadur Cymraeg Campus Uwchradd / Secondary Schools Questionnaire Hydref / Autumn 2024 - Bl / Yr 7 |
| Holiadur Siarter Iaith Ysgolion Uwchradd Cymraeg/ Dwy ffrwd Tymor yr Hydref 2024 - Blwyddyn 7 | Report on Holiadur Siarter Iaith Ysgolion Uwchradd Cymraeg/ Dwy ffrwd Tymor yr Hydref 2024 - Blwyddyn 7 |
| Holiadur Cymraeg Campus Uwchradd / Secondary Schools Questionnaire Hydref / Autumn 2024 - Bl / Yr 8 | Report on Holiadur Cymraeg Campus Uwchradd / Secondary Schools Questionnaire Hydref / Autumn 2024 - Bl / Yr 8 |
| Holiadur Cymraeg Campus Uwchradd / Secondary Schools Questionnaire Hydref / Autumn 2024 - Bl / Yr 9 | Report on Holiadur Cymraeg Campus Uwchradd / Secondary Schools Questionnaire Hydref / Autumn 2024 - Bl / Yr 9 |

*Nodyn: Os nad ydych yn gweld yr adroddiadau yma, cysylltwch â desg gymorth Hwb i gael mynediad atynt.*

Cliciwch ar yr adroddiad yr ydych am weld y data ar ei gyfer.

Yma fe welwch drosolwg o’r data ar gyfer yr holl ranbarthau yr ydych yn rhan ohonynt. Mae’r data yma yn cynnwys:

- Sgoriau defnyddwyr cyfartalog
- Graff Gwe o’r sgoriau cyfartalog
- Dadansoddiad o’r sgoriau fesul cwestiwn


Nodyn: Bydd adroddwyr ond yn gweld y data ar gyfer y rhanbarthau y maent yn eu cynrychioli. Ni fydd defnyddwyr yn gallu gweld data o unrhyw ranbarthau nad ydynt yn rhan ohonynt.

## Hidlo Data


I hidlo’r data, dewiswch y botwm hidlo.




Yma gallwch hidlo’r data yn ôl ‘Grŵp data’ – mae’r hidlydd hwn yn dangos data a gasglwyd yn ystod cyfnodau penodol.





*Nodyn: Gall defnyddwyr hefyd hidlo grwpiau data trwy ddewis yr opsiwn ‘Nid yw’ o’r ddewislen.*





## Cymharu setiau data

Gall adroddwyr gymharu setiau data gan ddefnyddio’r hidlyddion. Mae angen creu ‘Set hidlo 1’ a’i ffurfweddu i ddangos y grŵp data ar gyfer y cyfnod cyntaf rydych am weld y data ar ei gyfer.





I osod y grŵp data arall er mwyn cymharu'r data ag ef, dewiswch '+ Ychwanegu set hidlo'. Bydd hyn yn ychwanegu ail set data a gellir cymharu'r ddau.





*Nodyn: Peidiwch â defnyddio 'Ychwanegu hidlydd arall' ar gyfer cymharu data, gan y bydd hyn ond yn ychwanegu paramedr ychwanegol i'r hidlydd cyntaf.*


Ffurfweddwch yr hidlydd i'r data rydych am ei gymharu ag ef.




Gall adroddwyr nawr ailenwi'r setiau hidlo i'w gwneud yn fwy cofiadwy.




Trefnwch y gosodiadau. Bydd adroddwyr nawr yn gweld y ddwy set data yn yr adroddiad i'w cymharu.



**Sgoriau defnyddwyr:**

- Bydd y set data cyntaf yn ymddangos yn y cylch allanol mewn lliwiau bloc.
- Bydd yr ail set data yn ymddangos yn y cylch mewnol gyda’r lliw yn edrych ychydig yn batrymog.

**Graddfa radar**

- Bydd y ddwy set o ddata yn cael eu gorgyffwrdd mewn lliwiau gwahanol.

**Dadansoddiad sgoriau**

- Gall defnyddwyr newid rhwng y ddwy set data.





## Argraffu adroddiad

Gall adroddwyr lawrlwytho PDF o’r adroddiad drwy ddewis y botwm ‘Argraffu adroddiad’.

*Nodyn: Wrth lawrlwytho adroddiad sy’n cymharu data, dim ond y dadansoddiad sgoriau sydd ar agor ar y sgrin gaiff ei argraffu, er mwyn argraffu’r 2 set o ddata bydd angen clicio’r set hidlo nesaf fel bod y ddau ddadansoddiad sgoriau ar gael i’w hargraffu.*






Gobeithio bod hyn yn ddefnyddiol! Os oes angen unrhyw beth arall arnoch, neu os oes gennych unrhyw gwestiwn, mae croeso i chi gysylltu.